



**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

**Adroddiad Amgylcheddol**

**2022/23**

# Cynnwys

1.0 Rhagarweiniad .....	3
2.0 Dolenni Perthnasol .....	4
3.0 Cyd-destun Sefydliadol .....	5
4.0 Polisi Amgylcheddol .....	6
5.0 System Rheoli Amgylcheddol.....	8
6.0 Blaenoriaethau Amgylcheddol.....	12
7.0 Amcanion Amgylcheddol.....	14
8.0 Perfformiad Amgylcheddol .....	15

## 1.0 Rhagarweiniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydnabod yr effaith gadarnhaol a negyddol mae ein hamrywiaeth eang o weithgareddau a gwasanaethau yn eu cael ar yr amgylchedd ac rydym wedi ymrwymo i ddangos arweiniad wrth warchod a chynnal amgylchedd naturiol y sir.

Credwn y dylem arwain drwy esiampl i leihau ein heffaith negyddol ar yr amgylchedd a gwella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi rhoi Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar waith yn ein holl wasanaethau ac eithrio ysgolion, a sicrhau y caiff ein heffeithiau amgylcheddol eu monitro a'u rheoli a bod ein perfformiad amgylcheddol cyffredinol yn dal i wella.

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth am berfformiad amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystod 2022/2023, rhoi braslun o'r System Rheoli Amgylcheddol a dangos y cynnydd a wnaed wrth gyflawni ein hamcanion amgylcheddol.

### 1.1 Sut i gael rhagor o wybodaeth:

Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

Blwch Post 1

Conwy

LL30 9GN

01492 575337

[green.dragon@conwy.gov.uk](mailto:green.dragon@conwy.gov.uk)

<https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Strategies-Plans-and-Policies/Environmental-Policy.aspx>

*Mae'r gwybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad/ yr Adroddiad yma wedi ei brofi a'i ddilysu gan archwiliwr y Ddraig Werdd ac mae'r gwybodaeth yn asesiad teg a chywir o weithgareddau a prefformiad amgylcheddol y sefydliad tros y flwyddyn diwethaf sydd oddifewn i sgôp diffiniedig y sefydliad.*

*Archwiliwr Arweiniol: Robert Williams*

*Sefydliad Archwilio: Groundwork Wales*

*Dyddiad yr Archwiliad: 28/02/2024 – 04/03/2024*

*Dilys Tan: 15/03/2025*

*Nid yw dilysu'r Datganiad/Adroddiad yn cadarnhau ardystiad y Sistem Rheoli Amgylcheddol yn erbyn Safon y Ddraig Werdd. Fe all gael cadarnhad o ardystiad drwy gael copi dilys o dystysgrif Ddraig Werdd y sefydliad neu drwy ymweld â safle we'r Ddraig Werdd yn [www.greendragonems.com](http://www.greendragonems.com)*

## 2.0 Dolenni Perthnasol

### **Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd**

Cynllun gwirfoddol yng Nghymru i helpu sefydliadau i wella'u perfformiad amgylcheddol.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy a gweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy bennu amcanion lles a'u cyhoeddi, a chymryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

### **Cynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-2023**

Mae'r cynllun pum mlynedd hwn yn nodi'r amcanion lleol y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu pennu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal leol.

### **Cynllun Corfforaethol CBSC 2022 i 2027**

Mae'r cynllun pum mlynedd hwn yn nodi prif flaenoriaethau'r Cyngor wrth fodloni anghenion y bobl sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy, yn gweithio ac yn ymweld yma.

### **Rhybudd o Gynnig a Datganiad Argyfwng Hinsawdd CBSC Mai 2019**

Mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac mae'n ymrwymo i sicrhau bod y sir yn dal yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r Cyngor wedi gosod targed i'r awdurdod fod yn ddi-garbon net erbyn 2030.

### **Rhaglen Her yr Hinsawdd**

Sefydlwyd y rhaglen hon i gyflawni cynllun datgarboneiddio ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyda'r nod o arwain ein cymunedau i fod yn Sir ddi-garbon net.

### 3.0 Cyd-destun Sefydliadol

#### **Gwasanaethau Corfforaethol**

Archwilio a Chaffael, Cyllid Corfforaethol, Pobl a Pherfformiad, TG a Thrawsnewid Digidol, y Gyfraith a Llywodraethu, Ymchwil a Gwybodaeth.

#### **Economi a Diwylliant**

Canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, pyllau nofio, canolfannau busnes a chynadledda, theatrau, Marchnata a Chyfathrebu, Rheoli Ystadau ac Asedau.

#### **Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau**

Casglu a gwaredu gwastraff, glanhau strydoedd, toiledau cyhoeddus, ymateb i lifogydd, atal llifogydd ac amddiffyn yr arfordir, parciau, mannau gwyrdd a chefn gwlad; meysydd a mannau chwarae, rhandiroedd, claddedigaethau ac amlosgiadau; cynnal a chadw cerbydau'r Cyngor, cynnal a chadw ffyrdd, llwybrau troed, ymylon ffyrdd, pontydd a strwythurau; goleuadau stryd, graeanu yn y gaeaf, rheoli harbyrau a'r arfordir, parcio, rheoli adeiladau'r Cyngor, Tramffordd y Gogarth.

#### **Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai**

Monitro iechyd anifeiliaid, cynllunio, rheoli adeiladu, teledu cylch caeedig, cadwraeth, gorfodi, warden cŵn, monitro ansawdd amgylcheddol, diogelwch a safonau bwyd, cymorth tai, trwyddedu, enwi a rhifo strydoedd ac eiddo, cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau; safonau masnach.

#### **Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau**

Casglu ardrethi annomestig cenedlaethol a threth y cyngor, ymdrin â hawliadau am dreth y cyngor a budd-daliadau tai a rhoi cyngor, ymchwiliadau i dwyll budd-daliadau.

#### **Gofal Cymdeithasol ac Addysg**

Cefnogaeth gan weithwyr cymdeithasol, gofal preswyl a nyrsio; gofal cartref, canolfannau dydd, ysgolion cynradd ac uwchradd.

## 4.0 Polisi Amgylcheddol

### 1.0 Datganiad Polisi

- 1.1 Mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac mae'n ymrwymo i sicrhau bod y sir yn dal yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i genedlaethau'r dyfodol.
- 1.2 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymrwymo i:
  - Fod yn ddi-garbon net erbyn 2030,
  - Diogelu'r amgylchedd drwy leihau effeithiau negyddol ein gweithgareddau a bod yn arweinwyr cymunedol wrth hyrwyddo gwaith rheoli amgylcheddol cyfrifol,
  - Nodi'r holl rwymedigaethau amgylcheddol sy'n berthnasol i'n sefydliad a chydymffurfio â hwy,
  - Atal llygredd aer, dŵr a thir sy'n deillio o weithgareddau'r Cyngor a cheisio lleihau llygredd o ffynonellau eraill.
- 1.3 Mae System Rheoli Amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydymffurfio â Safon ddiweddaraf y Ddraig Werdd ar gyfer Rheolaeth Amgylcheddol 2016.

### 2.0 Cwmpas y Polisi

- 2.1 Mae Polisi Amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cwmpasu holl wasanaethau'r Awdurdod. Mae hynny'n cynnwys Gwasanaethau Corfforaethol, Economi a Diwylliant, Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, Gwasanaeth Aseidiadau Refeniw a Budd-daliadau a Gofal Cymdeithasol ac Addysg.
- 2.2 Mae'r prif agweddau amgylcheddol ar ein gweithgareddau yn cysylltu â'n blaenoriaethau amgylcheddol ym meysydd allyriadau nwyon tŷ gwydr, defnyddio adnoddau naturiol, rheoli gwastraff, rhyddhau elfion masnach a storio tanwydd a rheoli'r peryglon llygru sy'n gysylltiedig â hynny.

### 3.0 Amcanion Gwella

- 3.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022-2027 yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac mae'n canolbwyntio ar naw o feysydd â blaenoriaeth:
  1. Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn gofalu am yr amgylchedd.
  2. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir gydag economi lewyrchus sydd â diwylliant yn ganolog iddi.
  3. Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus.
  4. Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella ansawdd eu bywydau.
  5. Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.
  6. Mae pobl yng Nghonwy'n iach.
  7. Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir ble mae'r Gymraeg yn ffynnu, a gall pobl gymryd rhan ymhob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg.
  8. Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned ble mae eu cefndir a'u hunaniaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu.
  9. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn.
- 3.2 Cedwir golwg fanwl ar berfformiad wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ac adroddir yn ei gylch yn flynyddol.

#### **4.0 Adolygu a Chymeradwyo**

4.1 Adolygir y polisi hwn o leiaf unwaith y flwyddyn neu'n amlach, yn unol ag anghenion gweithredol ac anghenion busnes. Wrth adolygu'r polisi, fe'i cyflwynir i Fwrdd Rhaglen Her yr Hinsawdd i gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau.

## 5.0 System Rheoli Amgylcheddol

Cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy achrediad Lefel 5 Safon y Ddraig Werdd ym mis Chwefror 2014.

Mae cwmpas y system rheoli amgylcheddol yn cynnwys holl weithgareddau a swyddogaethau'r cyngor ac eithrio ysgolion, ac fe gaiff ei harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob maes yn bodloni gofynion Safon y Ddraig Werdd.

Mae'r system reoli wedi'i chofnodi'n llawn ac mae'r Llawlyfr Amgylcheddol yn gweithio fel arwydd ar gyfer gwahanol elfennau'r system, gan gynnwys y dogfennau a'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal y system reoli.

Gellir gofyn am weld y Llawlyfr Amgylcheddol a'r holl ddogfennau eraill sy'n ymwneud â'r system reoli gan [green.dragon@conwy.gov.uk](mailto:green.dragon@conwy.gov.uk). Mae canllawiau i staff ynglŷn â'r Ddraig Werdd a thafleini ffeithiau ynglŷn â'r ddeddfwriaeth sy'n gyffredin ar draws yr adrannau, ar dudalennau'r Ddraig Werdd ar y fewnwyd.

### 5.1 Cofrestr Agweddau Amgylcheddol

Mae agweddau amgylcheddol mwyaf sylweddol ar weithgareddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'u nodi a'u cofnodi yn y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol a'u categoreiddio'n unol â'r Gofrestr o Rwymedigaethau Cydymffurfiaeth, mewn saith o gategorïau: niwsans statudol, dŵr a rheoli elifion, rheoli gwastraff, defnyddio tir a chadwraeth, y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, allyriadau i'r aer a defnyddio adnoddau naturiol.

Bernir arwyddocâd yr agweddau a nodir yn ôl matrices risg, gan gymharu'r tebygolrwydd y bydd yr effaith yn digwydd, canlyniad yr effaith os bydd yn digwydd ac a dorwyd unrhyw ddeddfwriaeth.

Mae'r Gofrestr Agweddau hefyd yn nodi a oes yna risg llygredd yn gysylltiedig â'r agwedd, sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Atal Llygredd, a rhestru mesurau rheoli penodol sydd yn eu lle ar gyfer yr agweddau hyn.

Mae'r prif agweddau amgylcheddol ar ein gweithgareddau yn cysylltu â'n blaenoriaethau amgylcheddol ym meysydd allyriadau nwyon tŷ gwydr, defnyddio adnoddau naturiol, rheoli gwastraff, rhyddhau elifion masnach a storio tanwydd a rheoli'r peryglon llygru sy'n gysylltiedig â hynny.

### 5.2 Atal Llygredd

Caiff gweithgareddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n peri risg uchel neu ganolig o lygredd amgylcheddol, fel y'u nodir yn y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol, eu cofnodi yn y Cynllun Atal Llygredd.

Datblygwyd y cynllun hwn i leihau'r risgiau amgylcheddol sy'n deillio o'n gweithgareddau a sicrhau y gallwn ddarparu ymateb effeithiol i unrhyw berygl posib o lygredd. Mae'r Cynllun Atal Llygredd yn rhoi manylion am y mesurau rheoli sydd yn eu lle ar hyn o bryd i leihau'r perygl llygru, ac unrhyw fesurau ychwanegol sydd eu hangen.

Os ceir achos o lygredd, ymdrinnir ag ef yn unol ag EMS04 a chofnodir manylion y digwyddiad, gan gynnwys camau a gymerwyd, ar y Gofrestr Diffyg Cydymffurfiaeth.



### 5.3 Adolygiadau Rheoli

Cynhelir Adolygiadau Rheolaeth bob blwyddyn fel fforwm ar gyfer gwelliannau amgylcheddol parhaus a monitro effeithiolrwydd y System Rheoli Amgylcheddol.

Mae aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cadeirio'r Adolygiad Rheoli ac mae Aelod Cabinet yr Amgylchedd a Chludiant a Rheolwr Gwella Busnes yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau'n rhan o'r Tîm Adolygiadau Rheoli.

Cofnodir canlyniadau'r Adolygiad Rheoli yng nghofnodion yr adolygiad, sydd ar gael ar gais.

Roedd canlyniadau'r Adolygiad Rheoli diweddaraf yn cynnwys:

- Rhoi cymeradwyaeth i ddal i ddefnyddio canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol fel yr amcanion amgylcheddol.
- Cadarnhad y caiff agweddau amgylcheddol arwyddocaol eu rheoli'n briodol.
- Cadarnhau y caiff rhwymedigaethau cydymffurfio eu monitro a'u rheoli'n briodol.
- Rhoi cymeradwyaeth i gynnwys yr Adroddiad Perfformiad Carbon yn yr Adroddiad Amgylcheddol, gan gyfeirio at fanylion y perfformiad amgylcheddol mewn perthynas ag allyriadau nwyon tŷ gwydr.

### 5.4 Cydymffurfio â'r Gyfraith

Mae'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol, y gofynion rheoliadol ac ymrwymadau gwirfoddol perthnasol eraill sy'n ymwneud ag agweddau amgylcheddol ar weithgareddau a gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'u cofnodi ar y Gofrestr o Rwymedigaethau Cydymffurfiaeth, yn cynnwys perthnasedd y ddeddfwriaeth i'r sefydliad; manylion yr angen i gydymffurfio; y dulliau a ddefnyddiwyd i fesur cydymffurfiaeth a'r swyddog sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth. Adolygir y Gofrestr yn flynyddol, yn unol ag EMS01.

Cedwir cofnodion o drwyddedau gwastraff a Thystysgrifau Ynni i'w Harddangos yr Awdurdod a chaiff y rhain eu monitro i sicrhau eu bod yn cydymffurfio a'u bod yn cael eu diwygio'n brydlon pan fo'r angen.

### 5.5 Lleihau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

Nodwyd y nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o weithgareddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a gwyddom o ba weithgareddau y deilliant a beth yw eu heffaith ar yr amgylchedd.

Dyma'r prif Nwyon Tŷ Gwydr a nodwyd:

- Carbon Deuocsid o deithio a defnyddio ynni
- Methan o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi
- Ocsid nitrus o gerbydau sydd wedi'u gosod â thrawsnewidyddion catalytig a gwaith trin carthion
- Osôn o gerbydau sydd wedi'u gosod â thrawsnewidyddion catalytig
- Anweddd dŵr.

Bydd y gwaith i fod yn Awdurdod di-garbon net yn cynnwys monitro ac adrodd ar ddata allyriadau o'r ffynonellau canlynol:

### Allyriadau Cwmpas 1

- Tanwydd a ddefnyddir gan adeiladau y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu rheoli
- Nwy a ddefnyddir gan waith gwres ac ynni cyfunedig
- Tanwydd a ddefnyddir gan gerbydau a pheiriannau'r Cyngor.

### Allyriadau Cwmpas 2

- Trydan grid a ddefnyddir gan adeiladau y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu rheoli
- Trydan grid a ddefnyddir gan oleuadau stryd / Teledu Cylch Caeedig.

### Allyriadau Cwmpas 3

- Cyflenwi a thrin dŵr ar gyfer adeiladau y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu rheoli
- Teithio busnes gan staff y Cyngor
- Staff y Cyngor yn teithio i'r gwaith
- Gwastraff o weithrediadau'r Cyngor
- Caffael nwyddau a gwasanaethau
- Ynni a ddefnyddir gan asedau ar brydles.

2019/20 yw blwyddyn y llinell sylfaen ar gyfer adrodd ynghylch allyriadau a'u holrhain gyda'r nod o fod yn awdurdod lleol di-garbon net erbyn 2030. Troswyd yr allyriadau i CO<sub>2</sub>e at ddibenion adrodd a manylir yn eu cylch yn flynyddol yn yr Adroddiad Di-garbon Net a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.

## 5.6 Datblygu Cynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi gosod y cyfeiriad ar gyfer Cymru o ran darparu gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy a gweithio er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Er mwyn cyflawni'r amcanion lles a bennir yn y Ddeddf, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych wedi datblygu Cynllun Lles Lleol sy'n cynnwys amcanion y bydd y Bwrdd yn eu cyflawni er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yr ardal leol yng Nghonwy a Sir Ddinbych dros gyfnod o bum mlynedd.

Mae yno bedwar o themâu yn y Cynllun Lles:

- Lles: Mae cymunedau'n hapusach, yn fwy iach ac yn fwy gwydn i wynebu heriau, fel yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur, neu'r cynnydd mewn costau byw
- Yr Economi: Mae'r economi'n llewyrchus, wedi'i chefnogi gan weithlu medrus sy'n barod at y dyfodol
- Cydraddoldeb: Mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn wynebu llai o rwystrau
- Tai: Mae gwell mynediad at dai o ansawdd da.

Mae Cynllun Corfforaethol Conwy'n gynllun pum mlynedd sy'n pennu prif flaenoriaethau'r Cyngor i fodloni anghenion y dinasyddion sy'n byw yng Nghonwy, yn gweithio ac yn ymweld yma a chyfrannu at gyflawni Cynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022-2027 yn canolbwyntio ar naw o feysydd â blaenoriaeth:

1. Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn gofalu am yr amgylchedd.
2. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir gydag economi lewyrchus sydd â diwylliant yn ganolog iddi.
3. Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus.
4. Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella ansawdd eu bywydau.
5. Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.
6. Mae pobl yng Nghonwy'n iach.
7. Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir ble mae'r Gymraeg yn ffynnu, a gall pobl gymryd rhan ymhob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg.
8. Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned ble mae eu cefndir a'u hunaniaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu.
9. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn.

## 6.0 Blaenoriaethau Amgylcheddol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydnabod bod ein heffeithiau amgylcheddol mwyaf sylweddol ym meysydd:

### 6.1 Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'n gweithgareddau

Rydym yn allyrru nwyon tŷ gwydr o fwy neu lai popeth rydym yn ei wneud, wrth i ni deithio a phrynu mwy o nwyddau i ddarparu gwasanaeth safonol, rydym yn allyrru carbon deuocsid a llygryddion eraill i'r atmosffer, sy'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd.

Yn 2019 datganodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd a sefydlwyd Rhaglen Her yr Hinsawdd i gyflwyno cynllun datgarboneiddio er mwyn lleihau allyriadau a bod yn ddi-garbon net erbyn 2030. Cyhoeddir gwybodaeth am hyn ar wefan y Cyngor ac fe gaiff ei diwygio wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen. [Rhaglen Her yr Hinsawdd \(conwy.gov.uk\)](https://conwy.gov.uk)

### 6.2 Defnyddio adnoddau naturiol

Mae Rhaglen Her yr Hinsawdd Conwy yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i reoli'r allyriadau carbon o'u gweithgareddau er mwyn lleihau'r effaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol, a sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae cwmpas y Rhaglen yn cynnwys allyriadau carbon sy'n cael eu cynhyrchu o weithgareddau a wneir gan y cyngor yn cynnwys defnydd ynni a dŵr ar ystâd y Cyngor, gweithredu fflyd y cyngor, teithio busnes a theithio i'r gwaith, goleuadau stryd a chadwyn gyflenwi'r Cyngor.

### 6.3 Rheoli gwastraff

Yn ogystal â'r gwastraff a gynhyrchir yn swyddfeydd a depos y Cyngor, rydym hefyd yn gyfrifol am gasglu sbwriel a deunydd ailgylchadwy ar garreg y drws o bob aelwyd yn y Sir; mae ein gwasanaeth gwastraff masnach yn casglu sbwriel a deunydd i'w ailgylchu gan nifer o fusnesau ac ysgolion; rydym yn gweithredu cyfleuster adfer deunyddiau, canolfan swmpio a dwy o ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref.

Gwasanaeth Gwastraff Conwy, sy'n rhan o'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau. Mewn partneriaeth â Chynghorau Sir y Fflint a Sir Ddinbych agorwyd canolfan treulio anaerobig fis Gorffennaf 2014 sy'n cynhyrchu trydan adnewyddadwy a gwrtaith biolegol i'w daenu ar dir ffermio lleol.

Yn 2019 daeth cyfleuster gwastraff-i-ynni Parc Adfer ar waith sy'n prosesu gwastraff na ellir ei ailgylchu gan Awdurdodau gogledd Cymru i gynhyrchu hyd ynni adnewyddadwy i bweru cartrefi a busnesau.

Wrth weithio tuag at y dangosydd perfformiad cenedlaethol ar gyfer cynyddu'r gyfradd ailgylchu, yn 2014/15 cyflwynodd Conwy system Trolibocs i gasglu cynnyrch i'w ailgylchu ac yn 2018/19, Conwy oedd y cyngor cyntaf yn y Deyrnas Gyfunol i weithredu casgliadau sbwriel bob pedair wythnos, sydd wedi cyfrannu at welliant mawr yn y maes hwn.

O ganlyniad i hyn, cafodd 69% o'r gwastraff a gasglwyd yng Nghonwy ei ailgylchu, ei aildefnyddio neu'i gompostio yn 2022/23.

Mae'r holl ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r gweithgareddau hyn yn cael ei gofnodi ar y Gofrestr o Rwymedigaethau Cydymffurfiaeth, ac rydym yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â hwy bob amser.

#### **6.4 Storio tanwydd ar gyfer fflyd gerbydau'r Cyngor**

Adran Cludiant Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau sy'n gyfrifol am ddarparu tanwydd ar gyfer yr holl gerbydau a pheiriannau yn fflyd y Cyngor. Cedwir tanciau tanwydd mewn chwech o ddepos ledled y sir: Builder Street, Swyddfeydd Mochdre, Plas yn Dre, Canolfan Swmpio Gofer, Tan y Gopa a Thre Marl.

Mae'r tanciau'n dal disel coch a gwyn ac felly'n creu perygl amgylcheddol o dân, ffrwydrad, gollyngiad, a llygru'r ddaear. Nodwyd y peryglon hynny yn y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol a'r Cynllun Atal Llygredd ac mae dulliau ar waith i reoli'r risgiau cysylltiedig a'u lleihau.

#### **6.5 Gollyngiadau elifion masnach**

Rydym yn cydnabod bod rhai o'n gweithgareddau'n cynhyrchu elifion masnach sy'n gollwng i'r system dŵr gwastraff. Pan mae hynny'n digwydd, rydym wedi nodi'r math o ollyngiad dan sylw a chael y caniatâd priodol gan Ddŵr Cymru.

Rydym wedi cofnodi cynlluniau draenio ar gyfer ein safleoedd risg uchel gan nodi'r lleoliad, math a chyfeiriad llif y draeniau a lleoliad nodweddion ychwanegol y system er mwyn sicrhau dulliau effeithiol i reoli elifion a systemau draenio.

## 7.0 Amcanion Amgylcheddol

Y naw o flaenoriaethau yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw ein Hamcanion Amgylcheddol:

1. Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn gofalu am yr amgylchedd.
2. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir gydag economi lewyrchus sydd â diwylliant yn ganolog iddi.
3. Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus.
4. Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella ansawdd eu bywydau.
5. Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.
6. Mae pobl yng Nghonwy'n iach.
7. Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir ble mae'r Gymraeg yn ffynnu, a gall pobl gymryd rhan ymhob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg.
8. Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned ble mae eu cefndir a'u hunaniaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu.
9. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn.

Manylir ynghylch pob blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol sydd i'w weld ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gan gynnwys y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r blaenoriaethau a sut y byddwn yn mesur cynnydd: [Cynllun Corfforaethol 2022-2027 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#)

Ceir manylion ynghylch perfformiad wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn yr Adroddiad Blynyddol sydd ar gael ar wefan y Cyngor: [Crynodeb o Adroddiad Blynyddol a Hunanasesiad](#)

## 8.0 Perfformiad Amgylcheddol

Cedwir golwg ar allyriadau CO<sub>2</sub> (nwyon tŷ gwydr) fel rhan o ymrwymiad Conwy at ddulliau rheoli amgylcheddol, a ddefnyddir i fonitro effeithiolrwydd mesurau gwella sydd wedi cael eu rhoi ar waith, a sefydlu ein perfformiad amgylcheddol cyffredinol.

Ar ôl datgan Argyfwng Hinsawdd yn 2019 sefydlwyd Rhaglen Her yr Hinsawdd er mwyn cyflwyno cynllun datgarboneiddio ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. 2018/19 yw blwyddyn y llinell sylfaen a ddefnyddir i fesur taith Conwy tuag at gyflawni allyriadau di-garbon net.

Bydd Rhaglen Her yr Hinsawdd yn darparu'r weledigaeth er mwyn **arwain ein cymunedau yn ein nod i fod yn sir ddi-garbon net.**

Amcanion y rhaglen yw:

- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y Cyngor a ddaw o ystadau, fflyd, staff yn teithio i'r gwaith, teithio ar gyfer busnes, y gadwyn gyflenwi a goleuadau stryd er mwyn llwyddo i greu allyriadau di-garbon net.
- Gwrthbwysu'r allyriadau sy'n weddill erbyn 2030.
- Datblygu a gweithredu ar gynllun ynni ardal leol ar gyfer Sir Conwy erbyn 2030.

Rheolir perfformiad y rhaglen a'r cynnydd at y nod o gael allyriadau di-garbon net drwy Raglen Her yr Hinsawdd, yr adroddir amdani'n flynyddol yn yr Adroddiad Di-garbon Net ac a gyflwynir i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle i'w gymeradwyo.

Ceir crynodeb o Adroddiad Di-garbon Net 2022/23 yn atodiad 1.